

Datganiad Polisi Iechyd a Diogelwch

Nod Amgueddfa Cymru yw darparu amgylchedd gwaith diogel i'n gweithwyr ac unigolion eraill a allai gael eu heffeithio gan ein gweithgareddau.

Cydymffurfio â deddfwriaeth yw'r safon dderbyniol ofynnol ac rydym wedi ymrwymo i gyflawni'r lefelau uchaf o ran perfformiad iechyd a diogelwch trwy welliant parhaus a chosteffeithiol.

Mae iechyd a diogelwch yn rhan annatod o'n busnes ac mae ei statws yn gyfartal ag agweddau eraill ar berfformiad busnes.

Felly, darperir adnoddau ariannol a ffisegol priodol i weithredu'r polisi hwn.

Mae Amgueddfa Cymru yn cydnabod mai dim ond gyda chefnogaeth ac ymrwymiad ein gweithwyr y gellir rheoli iechyd a diogelwch yn llwyddiannus.

Bydd pob cyflogai yn cael ei annog yn weithredol i gymryd perchnogaeth dros iechyd a diogelwch ac yn cael eu grymuso i gynorthwyo gyda'r broses o wneud penderfyniadau.

Mae cydymffurfio â'r polisi hwn yn amod cyflogaeth.

Bydd Amgueddfa Cymru yn sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei weithredu a'i gynnal ar bob lefel ledled y sefydliad.

Mae cyfrifoldebau dros iechyd a diogelwch wedi'u diffinio yn ein System Rheoli Iechyd a Diogelwch.

Mae rheoli iechyd a diogelwch o ddydd i ddydd yn gyfrifoldeb rheolwyr ar bob lefel, ond y Prif Weithredwr sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol.

Er mwyn cynorthwyo â'r gwaith o weithredu ein System Rheoli Iechyd a Diogelwch rydym wedi penodi Pennaeth Diogelwch, Iechyd a Diogelwch, Penaethiaid Amgueddfeydd a staff dirprwyedig eraill. Mae cynghorwyr allanol hefyd wedi cael eu penodi.

Er mwyn hwyluso gwelliannau parhaus mewn safonau iechyd a diogelwch, byddwn yn nodi amcanion iechyd a diogelwch penodol.

Bydd cynnydd tuag at yr amcanion yn cael ei fonitro'n agos.

Cynhelir archwiliadau cyfnodol o'n System Rheoli Iechyd a Diogelwch i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn ddigonol ac yn effeithiol.

Bydd Amgueddfa Cymru yn adolygu'r polisi hwn bob tair blynedd ac yn ei ddiwygio cyn amlled ag sy'n briodol.



Llofnodwyd:

Swydd: Prif Weithredwr

Dyddiad: 16 Mawrth 2026